

Abermaw



Pellter: 7km / 4.3 milltir
Anhawster: hawdd
Amser cerdded: 2.5 awr



Caffis a thoiledau yng nghanol y dref a hefyd yng ngorsaf 'Estuary Halt'.



Dim Camfeydd


Mae'r llwybr hwn yn dilyn Llwybr Arfordir Cymru dros bont Abermaw cyn dilyn yr aber draw at ben draw rheilffordd Fairbourne. Yn y fan hon, gellir defnyddio fferi fach (rhwng y Pasg a mis Hydref) i groesi'r pellter byr yn ôl i Abermaw.

1

Ewch allan o'r orsaf a dilyn y ffordd i lawr i'r traeth. Trowch i'r chwith a dilyn y promenâd heibio gorsaf y bad achub a'r harbwr (mae thoiledau cyhoeddus ar gael yma). Croeswch o dan y rheilffordd a throï i'r dde ar y briffordd. Dilynwch y ffordd nes bydd arwydd ar yr ochr dde i chi yn eich cyfeirio at bont Abermaw. Bydd yr arwydd hefyd yn dweud Llwybr Arfordir Cymru. Mae pont Abermaw yn draphont bren restredig gradd II, mae'n 820m a dyma'r draphont bren hiraf yng Nghymru ac un o'r rhai hynaf sy'n cael ei defnyddio'n rheolaidd ym Mhrydain.

2

Ar ôl croesi'r bont, fe gyrhaeddwch orsaf Morfa Mawddach y gellir ei defnyddio i ddychwelyd i Abermaw os ydych chi eisiau taith gerdded fyrrach. Fel arall, cymerwch y llwybr ar y dde sydd â'r arwydd Llwybr Arfordir Cymru a fferi Abermaw. Mae'r llwybr yn parhau gyda'r aber ar y dde i chi hyd nes y byddwch chi'n cwrdd â'r ffordd wrth y cwrs golff. Yn y fan hon, trowch i'r dde a mynd at ben draw rheilffordd Fairbourne. Mae caffis a thoiledau ar gael yma. Wrth fynd i lawr at y traeth, fe welwch wybodaeth am y fferi sy'n darparu taith ddwyffordd hwyliog i Abermaw.



Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau. Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau.



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

RAMBLERS
CYMRU